# Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru

## Cynlluniau i newid y gyfraith ynghylch digartrefedd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Helo

Dylai pawb gael lle diogel, iach i'w alw'n gartref.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau **stopio digartrefedd cyn iddo ddigwydd.** Yr enw ar hyn yw "atal".

Rydym ni am sicrhau bod digartrefedd yn **brin**, mor **fyr** â phosibl, a **ddim yn digwydd dro ar ôl tro.**





Yng Nghymru, fe wnaethon ni basio deddf yn 2014 sy'n dweud bod yn rhaid i awdurdodau lleol helpu a chefnogi pobl sy'n wynebu digartrefedd. Mae'r gyfraith honno wedi helpu ond rydym ni am wneud mwy.

Mae hwn yn dweud wrthych chi am y prif newidiadau rydym ni am eu gwneud i'r gyfraith fel nad yw pobl yn wynebu bod yn ddigartref.

Rydyn ni eisiau clywed beth rydych chi'n ei feddwl, felly atebwch y cwestiynau wrth i chi fynd ymlaen.

## Ein nodau

Rydym ni credu y bydd y newidiadau hyn yn:

- helpu pobl i gael y cymorth maen nhw ei angen yn gyflym, yn y ffyrdd cywir
- sicrhau bod gwasanaethau'n rhoi anghenion pobl yn gyntaf
- gwella safonau mewn llety dros dro
- lleihau'r risg o ddigartrefedd
- sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd yn well
- defnyddio tai a llety yn y ffyrdd gorau
- gwella profiad pobl o gefnogaeth.



# Rhai ffeithiau

Gall wynebu bod yn ddigartref gael effaith enfawr mewn sawl rhan o fywyd rhywun. Nid yw digartrefedd yn golygu pobl sy'n cysgu ar y strydoedd neu gysgu allan yn unig. Mae'n cynnwys pobl sydd:

- yn byw mewn tai ansicr neu dros dro
- yn byw mewn hosteli a llochesi nos
- yn byw mewn llety gwely a brecwast
- yn byw yn rhywle nad oes gennych chi hawl gyfreithiol i aros—sgwat
- yn symud rhwng perthnasau a ffrindiau—'symud o soffa i soffa'.

Gall y llwybr tuag at fod yn ddigartref gynnwys:

- colli swydd
- problemau iechyd
- problemau perthynas
- trychineb fel tân neu lifogydd
- cael eich troi allan
- amodau gwael, afiach neu orlawn
- materion ariannol a chostau byw yn cynyddu
- cam-drin meddyliol, corfforol a/neu rywiol
- cael eich rhyddhau o'r lluoedd arfog
- profi trawma.

## Cynnwys pobl

I ddatblygu'r cynigion hyn, fe wnaethom weithio gyda Phanel Adolygu Arbenigol annibynnol. Fe wnaethom ni hefyd wneud y canlynol:

- gweithio gyda sefydliadau i ddarganfod profiadau pobl o ddigartrefedd
- cynnal digwyddiadau gydag awdurdodau lleol, sefydliadau ac eraill
- casglu tystiolaeth
- comisiynu ymchwil am opsiynau tai yng Nghymru
- mynychu gwahanol gynadleddau, fforymau a byrddau.

**Atal digartrefedd cyn iddo ddechrau.**



# 1: Helpu pobl yn y ffyrdd cywir

Rydym ni am i bobl gael y cymorth maen nhw ei angen pan fyddan nhw ei angen. Dydyn ni ddim eisiau iddyn nhw orfod aros nes eu bod nhw mewn argyfwng.

Mae angen i wasanaethau gysylltu pobl â’r llety cywir sy’n diwallu eu hanghenion yn gyflym. Dydyn ni ddim am i bobl aros mewn llety dros dro fel gwestai neu hosteli am gyfnod hir. Yr enw ar hyn yw Ailgartrefu Cyflym. Mae rhai awdurdodau lleol eisoes yn gwneud hyn, ond nid yw eraill yn gwneud hyn.

## Cael cefnogaeth yn gynt

**Cynnig: Rydym ni am i unrhyw un sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ymhen 6 mis neu lai gael help. Ar hyn o bryd, 8 wythnos yw’r cyfnod.**

Rydym ni’n credu nad yw 8 wythnos yn ddigon o amser, ac mae angen cymorth ar bobl cyn hynny.

## Cymorth cynllunio

**Cynnig: Rydym ni am i awdurdodau lleol orfod rhoi Cynllun Tai Personol (PHP) i bobl fel rhan o’u hasesiad.**

Pan fydd rhywun mewn perygl o fod yn ddigartref, mae’r awdurdod lleol yn siarad â nhw ac yn asesu eu hanghenion. Mae rhai awdurdodau lleol yn rhoi PHP i bobl, ond nid yw eraill yn gwneud hynny. Rydym ni’n credu y dylai pawb gael PHP oherwydd ei fod yn helpu pobl i wybod beth sy’n digwydd, pryd mae’n digwydd, a pham.

**Cynnig: Rydym ni am i’r PHP gael ei adolygu bob 8 wythnos o leiaf.**


Mae pethau’n newid, ac rydym ni am sicrhau bod PHPs yn gyfredol.

**Cynnig: Rydym ni am sicrhau bod gan bobl lais a bod eu barn wedi’i chynnwys yn eu PHP.**

Dylai pobl fod yn rhan o benderfyniadau am eu bywydau, yn enwedig o ran ble maen nhw’n byw.

**Cynnig: Rydym ni am i bobl gael yr hawl i ofyn am adolygiad neu herio penderfyniadau yn eu PHP.**

Ni fydd pob PHP yn berffaith. Dylai awdurdodau lleol ddweud wrth bobl sut i godi pryderon a herio penderfyniadau.



## Helpu pobl sydd ei angen fwyaf

**Cynnig: Rydym ni am ddod â'r Prawf Angen Blaenoriaethol i ben.**

Mae cael gwared ar y prawf angen blaenoriaethol yn golygu na fydd yn rhaid i bobl sy'n wynebu digartrefedd brofi eu bod nhw'n diwallu'r Prawf Angen Blaenoriaethol cyn cael yr help maen nhw ei angen.

**Cynnig: Rydym am ddod â'r Prawf Bwriad i ben.**

Mae'r Prawf Bwriad yn gwirio p'un a yw rhywun yn gwneud eu hunain yn ddigartref ar bwrpas. Os bydd rhywun yn methu'r prawf, gallai eu hatal rhag cael y gwasanaethau maen nhw'n eu haeddu. Mae rhai awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio, nid yw eraill yn ei ddefnyddio. Dydy hyn ddim yn deg i bobl ar draws Cymru.

## Cysylltiad lleol

**Cynnig: Rydym ni am ychwanegu mwy o grwpiau o bobl at y rhestr o eithriadau fel y gall mwy o bobl symud allan o'u hardal os oes angen. Hoffem ychwanegu pobl sydd:**

- **wedi profi gofal**
- **yn Gyn-filwyr**
- **mewn perygl neu wedi profi cam-drin domestig, cam-drin arall neu ecsbloetio**
- **yn gadael y carchar.**

Weithiau mae angen dechrau newydd ar bobl oherwydd amgylchiadau yn eu bywydau. Ond nid yw'r gyfraith yn gadael i hyn ddigwydd ar hyn o bryd.

## Atal digartrefedd rhag digwydd dro ar ôl tro

**Cynnig: Rydym ni am i awdurdodau lleol helpu pobl i gadw'r llety a roddwyd iddyn nhw.**

Weithiau mae angen help ar bobl fel nad ydyn nhw'n parhau i fod yn ddigartref. Pan fydd rhywun yn cael cartref diogel, dylai gwasanaethau gydweithio â landlordiaid i sicrhau nad ydynt yn dod yn ddigartref eto.



## Gwneud systemau'n haws

**Cynnig: Rydym ni am ddileu'r Ddyletswydd Ryddhad sy'n golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol ddod o hyd i lety i bobl am o leiaf 6 mis.**

Bydd pawb sydd mewn perygl o ddigartrefedd yn cael cefnogaeth barhaus a llety dros dro felly nid ydym ni angen hyn mwyach.

**Cynnig: Rydym ni am nodi'n glir beth mae methiant afresymol i gydweithio yn ei olygu, a beth nad yw'n ei olygu.**

Gall bod yn ddigartref gael effaith enfawr ar fywydau pobl ac rydym ni am gyfyngu ar gymhwyso'r prawf methiant afresymol i gydweithredu. Rydym ni am nodi'n glir bod afresymol yn golygu:

- ymddygiad bygythiol tuag at staff.
- peidio â chysylltu â'r gwasanaethau tai yn gyson.

## Cyfathrebu

**Cynnig: Rydym ni am i awdurdodau lleol gyfathrebu â phobl mewn ffyrdd sy'n hawdd eu deall ac sy'n diwallu eu hanghenion.**



## Cwestiynau

**Beth ydych chi'n ei feddwl o'r cynigion yn yr adran hon?**

Hapus ◯ Iawn ◯ Anhapus ◯ Ddim yn gwybod ◯

**Pam?**

**Oes yn unrhyw beth rydym ni wedi'i fethu?**



# 2: Sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd yn well

## Rhoi diwedd ar ddigartrefedd gyda'n gilydd

**Cynnig: Rydym ni am i wasanaethau fel gwasanaethau cymdeithasol, byrddau iechyd lleol, carchardai a chanolfannau gwaith gydweithio â thimau tai. Rydyn ni eisiau iddyn nhw wneud y canlynol:**

- **nodi os yw rhywun mewn perygl o fod yn ddigartref a'u cyfeirio am gymorth**
- **cymryd y camau y gallan nhw i helpu rhywun i osgoi digartrefedd**
- **gweithio'n lleol ac ar draws rhanbarthau**
- **cefnogi pobl ag anghenion cymhleth i ddod o hyd i'r tai cywir.**

Mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn gyfrifoldeb ar bawb. Rydym ni am weld gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd, yn edrych ar sefyllfa gyfan rhywun ac yn eu cyfeirio at wasanaethau tai pan fydd angen help arnynt.



## Cwestiynau

Beth ydych chi'n ei feddwl o'r cynigion yn yr adran hon?

Hapus ◯ Iawn ◯ Anhapus ◯ Ddim yn gwybod ◯

Pam?

Oes yn unrhyw beth rydym ni wedi'i fethu?

# 3: Cefnogaeth wedi'i thargedu lle mae ei angen fwyaf

Gall unrhyw un fod yn ddigartref. Ond mae rhai grwpiau o bobl yn fwy agored i ddigartrefedd nag eraill ac mae rhai angen mwy o gefnogaeth nag eraill.

## Cefnogaeth i blant, pobl ifanc a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal

**Cynnig:** **Rydym ni eisiau sicrhau:**

- **bod pobl ifanc 16-17 mlwydd oed yn cael y cymorth cywir ac nad ydynt mewn llety dros dro heb gymorth fel gwestai**
- **bod awdurdodau lleol yn rhoi cymorth ychwanegol i'r rhai sy'n gadael gofal.**

## Cefnogaeth i bobl sy'n gadael yr ysbyty

**Cynnig:** **Rydym ni am i bobl gael asesiad o'u hanghenion tai cyn iddynt adael yr ysbyty fel nad ydynt yn cael eu hunain ar y stryd.**

## Cefnogaeth i oroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)

**Cynnig:** **Rydym ni am newid y diffiniad o gam-drin domestig i gynnwys ymddygiad rheolaethol neu orfodaeth, cam-drin economaidd neu seicolegol.**

Mae hyn yn golygu bydd mwy o bobl yn cael cymorth gyda thai ac yn ddiogel.



## Cefnogi pobl anabl

**Cynnig:** Rydym ni am i bob awdurdod lleol gael cofrestr (rhestr) o dai a all ddiwallu anghenion pobl anabl.

## Cefnogi cyn-filwyr

**Cynnig:** Rydym ni am i bob awdurdod lleol ddeall a chefnogi anghenion Cyn-filwyr a'u teuluoedd, a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

## Cefnogi oedolion yn y System Cyfiawnder Troseddol

**Cynnig:** Rydym ni am sicrhau bod pobl yn cael asesiad o'u hanghenion tai pan fyddant yn mynd i'r carchar fel nad ydynt yn wynebu dod yn ddigartref pan fyddant yn gadael.

**Cynnig:** Rydym ni am sicrhau bod pob rhan o'r awdurdod lleol yn helpu plant sydd wedi bod yn y system dalfa ieuenctid ac sy'n paratoi i gael eu rhyddhau.



## Cwestiynau

Beth ydych chi'n ei feddwl o'r cynigion yn yr adran hon?

Hapus ◯ Iawn ◯ Anhapus ◯ Ddim yn gwybod ◯

Pam?

Oes yn unrhyw beth rydym ni wedi'i fethu?

# 4: Paru pobl â'r cartrefi cywir

Dylai'r llety mae awdurdodau lleol yn ei gynnig i bobl fod yn llefydd iach i fyw. Dylai fod yn agos at bethau mae pobl eu hangen, gan gynnwys trafnidiaeth, gwasanaethau iechyd, ysgolion, gwaith a theulu sy'n eu cefnogi. Dylent hefyd ddiwallu anghenion pobl yn y ffyrdd cywir.

## Cadw pobl yn iach

**Cynnig:** **Rydym ni am sicrhau nad oes unrhyw un yn cael llety sydd â pheryglon Categori 1 fel lleithder, llwydni, ac sydd yn rhy oer. Mae pethau fel hyn yn gallu niweidio iechyd pobl yn ddifrifol.**

## Cadw pobl yn ddiogel

**Cynnig:** **Rydym ni am atal pobl rhag cael cynnig lle cysgu ar y cyd, hyd yn oed mewn llety dros dro neu argyfwng.**

Gall pobl rannu cyfleusterau fel cegin a golchdy ond mae ganddynt eu hystafelloedd gwely eu hunain.

## Atal gorlenwi

**Cynnig:** **Rydym ni am sicrhau bod y nifer cywir o bobl mewn llety ac atal gorlenwi.**

## Cefnogi pobl ifanc

**Cynnig:** **Rydym ni am sicrhau nad yw pobl o dan 25 mlwydd oed yn cael eu rhoi mewn llety anaddas dros dro.**

## Herio penderfyniadau

**Cynnig:** **Rydym ni am i bobl gael yr hawl i ofyn am adolygiad o'u llety ar unrhyw adeg, nid yn unig yn ystod y 21 diwrnod cyntaf.**

**Cynnig:** **Rydym ni am i'r awdurdod lleol orfod cwblhau adolygiadau o fewn 3 wythnos fel bod pobl yn cael penderfyniadau yn gyflym.**

## Lleoliad

**Cynnig:** **Rydym ni am sicrhau bod llety ond yn cael ei ystyried yn addas os yw yn y lle iawn i ddiwallu anghenion pobl.**

**Cynnig:** **Rydym ni am i awdurdodau lleol orfod ystyried iechyd a lles pobl, unrhyw amhariadau, anghenion teuluol, ac amgylchiadau eraill os ydynt yn cynnig llety y tu allan i'r ardal leol.**



## Mae'rnewidiadau nesaf i gyd yn ymwneud â Thai Cymdeithasol

Tai cymdeithasol yw cartrefi sy'n cael eu rhentu gan **awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSLs)**. Y landlord sy'n penderfynu pwy all fyw yno.

Mae Tai Cymdeithasol fel arfer yn rhatach, a gall pobl eu rhentu am fwy o amser. Gall pobl wneud cais am dai cymdeithasol hyd yn oed os nad ydyn nhw angen tai neu nad ydynt mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae hyn yn golygu bod rhestrau aros yn hir. Gall gymryd misoedd neu flynyddoedd i gael eiddo.

### Defnyddio Tai Cymdeithasol yn y ffyrdd cywir

**Cynnig:** **Rydym ni am sicrhau bod Tai Cymdeithasol yn helpu'r bobl sydd ei angen fwyaf.**

**Cynnig:** **Rydym ni am sicrhau na all RSL wrthod atgyfeiriad gan awdurdod lleol oni bai bod ganddynt resymau dilys dros wneud hynny.**

### Tynnu pobl o'r rhestr aros

**Cynnig:** **Rydym ni am i awdurdodau lleol gael y pŵer i dynnu pobl oddi ar y rhestr aros Tai Cymdeithasol os nad oes angen tai arnynt.**

### Helpu pobl sydd ei angen fwyaf, gyntaf

**Cynnig:** **Rydym ni am i bobl sy'n ddigartref, mewn grwpiau wedi'u targedu neu sydd ag anghenion tai brys gael tai cymdeithasol cyn eraill ar y rhestr.**

### Cael cofrestr tai

**Cynnig:** **Rydym ni am i awdurdodau lleol gael un Gofrestr Tai sy'n dangos yn glir yr holl lety a thai cymdeithasol sydd ar gael yn eu hardal.**



## Prawf ymddygiad annerbyniol

**Cynnig:** **Rydym ni am i awdurdodau lleol allu atal pobl rhag cael tai cymdeithasol os ydynt yn ymosodol neu'n euog o ymddygiad annerbyniol.**

## Bod yn deg

**Cynnig:** **Rydym ni am i awdurdodau lleol gael 'Prawf Camddefnydd Bwriadol' y gallant ei ddefnyddio cyn i rywun gael tai cymdeithasol.**

Er y bydd gan awdurdodau lleol ddyletswydd o hyd i ddod o hyd i lety iddynt, nid ydym am i bobl ddod yn ddigartref ar bwrpas fel y gallant neidio'r rhestr a chael tai cymdeithasol yn gynt. Dydy hynny ddim yn deg.

## Mwy o opsiynau tai

**Cynnig:** **Rydym ni am i awdurdodau lleol gael mwy o opsiynau tai y gallant eu cynnig fel:**

- **tai â chymorth**
- **llety â chymorth**
- **dychwelyd i lety blaenorol, gan gynnwys cartref y teulu, os yw hyn yn ddiogel.**

## Cwestiynau

**Beth ydych chi'n ei feddwl o'r cynigion yn yr adran hon?**

Hapus ◯ Iawn ◯ Anhapus ◯ Ddim yn gwybod ◯

**Pam?**

**Oes yn unrhyw beth rydym ni wedi'i fethu?**





# 5: Rhoi newidiadau ar waith a gwirio gwaith

## Systemau

**Cynnig: Rydym ni am ddefnyddio'r systemau sydd gan bob awdurdod lleol i gyflawni'r newidiadau hyn.**

Mae'r systemau sydd gennym ni ar hyn o bryd yn gweithio'n dda:

- Mae awdurdodau lleol yn adnabod eu hardaloedd, maen nhw'n rhedeg gwasanaethau digartrefedd ac yn dyrannu llety. Maen nhw'n gwirio sut maen nhw'n gweithio, yn delio â chwynion ac yn sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth gywir.
- Mae sefydliadau eisoes ar waith sy'n gwirio bod gwasanaethau a llety yn dda.
- Os oes pryderon, gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) ymchwilio.
- Rydym ni am ddod o hyd i ffyrdd eraill sy'n bodoli eisoes y gallwn ni eu defnyddio i gefnogi ein newidiadau.

## Casglu gwybodaeth

**Cynnig: Rydym ni am gael y pŵer i ofyn am ddata a gasglwyd gan awdurdodau lleol.**

Mae angen i ni ddeall digartrefedd yn well. Byddai gwybodaeth am nifer y bobl sydd angen cymorth ledled Cymru, sut mae gwasanaethau'n gweithio, a phethau eraill yn ein helpu i ddiwallu anghenion pobl a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

## Cwestiynau

**Beth ydych chi'n ei feddwl o'r cynigion yn yr adran hon?**

Hapus ◯ Iawn ◯ Anhapus ◯ Ddim yn gwybod ◯

**Pam?**

**Oes yn unrhyw beth rydym ni wedi'i fethu?**



# Diolch am ddarllen

Gallwch ddarllen yr ymgynghoriad ehangach yma:
https://www.llyw.cymru/rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd-papur-gwyn

Anfonwch eich atebion i:

Tîm Deddfwriaeth Atal Digartrefedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

DiwygioDeddfwriaethDigartrefedd@gov.wales

Erbyn 16 Ionawr 2024

